| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **21 IONAWR 2010** |
| **TEITL** | **STRATEGAETH HYFFORDDI AELODAU** |
| **PWRPAS** | **Mabwysiadu disgrifiadau o rôl a chyfrifoldebau aelodau a chymwyseddau ac ymddygiadau** |
| **ARWEINYDDION PORTFFOLIO** | **Cynghorydd J R Jones, Uwch Arweinydd Adnoddau; Cynghorydd Gwilym Euros Roberts, Arweinydd Portffolio Adnoddau Dynol** |
| **AWDURON** | **Dilys Phillips, Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol; Alwyn Jones, Pennaeth Adnoddau Dynol** |

1. Ar y 7fed o Fai, 2009 fe gymeradwyodd y Cyngor llawn strategaeth datblygu a hyfforddi cynhwysfawr ar gyfer aelodau. Camau cyntaf y strategaeth hon oedd datblygu dogfennau fyddai'n sail i raglen ddatblygu a hyfforddi ar gyfer holl aelodau'r Cyngor.

2. Y man cychwyn ydi gwerthoedd y Cyngor sydd bellach wedi eu hadolygu gan y Cyngor llawn yn dilyn ymgynghori gydag aelodau, staff a'r cyhoedd. Atodir gopi yn eu crynhoi yn Atodiad 1. Rhain yw'r sail ar gyfer gwaith yr aelodau.

3. Y ddogfen nesaf i'w llunio oedd disgrifiad o rôl a chyfrifoldebau yr aelodau. Paratowyd y ddogfen hon yn ystod haf 2009 gyda mewnbwn gan y Gweithgor Gwasanaethau Aelodau ynghyd â nifer o aelodau eraill ar draws y grwpiau gwleidyddol mewn sesiynau wedi eu hwyluso gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Fe'i hanfonwyd i holl aelodau'r Cyngor am ymgynghoriad cyn cael ei hystyried unwaith yn rhagor gan y Gweithgor. Atodir gopi o'r ddogfen hon yn Atodiad 2.

4. Yn ychwanegol at eu rôl a'u cyfrifoldebau fel aelodau o'r Cyngor, mae gan yr Arweinyddion Portffolio, sef Aelodau'r Bwrdd, gyfrifoldebau ychwanegol. Datblygwyd disgrifiad o'r rolau a chyfrifoldebau arwain hyn gan aelodau'r Bwrdd mewn dwy sesiwn wedi eu hwyluso gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Atodir yn Atodiad 3 y disgrifiad o Rôl a Chyfrifoldebau Aelodau o'r Bwrdd.

5. Yn dilyn ymlaen o'r rôl a chyfrifoldebau, ceir dogfen bellach yn manylu ar gymwyseddau ac ymddygiadau a ddisgwylir oddi wrth aelodau. Gellir egluro'r gwahaniaeth rhwng y dogfennau hyn, fel a ganlyn :-

   - *Rolau a chyfrifoldebau* sy'n disgrifio y swyddogaeth, h.y. beth yw'r tasgau i'w cyflawni.
   - *Cymwyseddau* sy'n disgrifio'r sgiliau a gwybodaeth sydd eu hangen i gyflawni'r tasgau.
   - *Ymddygiadau* sy'n disgrifio'r ffordd yr eir ati i gyflawni'r dasg a'r agwedd a ddangosir.

6. Lluniwyd y ddogfen Cymwyseddau ac Ymddygiadau Craidd ar gyfer holl aelodau'r Cyngor mewn cyfres o weithdai a gynhaliwyd fis Medi a Hydref 2009, wedi eu hwyluso gan ymgynghorwr allanol sy'n arbenigo yn y maes. Dosbarthwyd y ddogfen i holl aelodau'r Cyngor am ymgynghoriad cyn cael ei hystyried eto gan y Grwpiau. Mae'r ddogfen yn atodiad 4.

7. Yn ychwanegol at y cymwyseddau ac ymddygiadau sy’n berthnasol i holl aelodau’r Cyngor mae gofyn i aelodau’r Bwrdd, fel arweinyddion, arddangos cymwyseddau ac ymddygiadau ychwanegol. Cyfeirir at y rhain fel y cymwyseddau ac ymddygiadau arwain ac fe’i hatodir yn Atodiad 5. Mae’r rhain wedi eu llunio mewn tri gweithdy a gynhaliwyd gan aelodau’r Bwrdd, wedi eu hwyluso gan yr ymgynghorwr allanol.

8. Cyflwynwyd yr holl ddogfennau i’r Prif Bwyllgor Craffu ar 8 Rhagfyr 2009 a phenderfynodd y pwyllgor eu cymeradwyo i’r Cyngor Llawn i’w mabwysiadu.

9. Pwrpas y dogfennau yw gosod sylfaen neu feincnod o’r hyn y mae aelodau eu hunain wedi cytuno y byddai’r aelod delfrydol yn ei arddangos. Yn naturiol ni fydd pob aelod yn cyrraedd at pob elfen o’r safon, ond wrth ddogfennu’r disgwyliadau mae modd i bob aelodau gymharu ei gyrhaeddiad yn erbyn y disgwyliad. Mantais hynny yw y gellir wedyn dargedu rhaglen hyfforddi at lle mae’r angen mwyaf a sicrhau fod cynllun datblygu personol yn cael ei deilwra ar gyfer pob aelod unigol. Hefyd bydd y dogfennau yn ran o becyn ar gyfer ‘darpar ymgeiswyr’ er mwyn rhoi eglurdeb am ofynion y rôl a’r disgwyliadau ar unigolion.

10. Wedi i’r Cyngor fabwysiadu’r dogfennau, bydd angen symud ymlaen i edrych ar y ffordd o asesu anghenion datblygu aelodau yn erbyn y dogfennau, gan ganolbwyntio yn ystod y flwyddyn gyntaf ar yr Arweinyddion Portffolio.

**ARGYMHELLIAD.**

11. Bod y Cyngor yn mabwysiadu’r dogfennau atodol fel rhan o’r Strategaeth Hyfforddi Aelodau.

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **ATODIAD 1** | Gwerthoedd y Cyngor. |
| **ATODIAD 2** | Rôl a Chyfrifoldebau Aelodau Cyngor Gwynedd. |
| **ATODIAD 3** | Rôl a Chyfrifoldebau Aelodau'r Bwrdd. |
| **ATODIAD 4** | Cymwyseddau ac Ymddygiadau Aelodau Cyngor Gwynedd. |
| **ATODIAD 5** | Cymwyseddau ac Ymddygiadau Aelodau'r Bwrdd. |